**Estyn** | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 03.12.25 |
| **Pwnc / Subject:** | Data i fonitro'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

### Ymateb

**Cyflwyniad**

Mae Estyn yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion i ddiwygio ac ymestyn casgliadau data yn gysylltiedig â'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Rydym yn cefnogi'r nod cyffredinol i wella ansawdd, cysondeb a defnyddioldeb data i gryfhau dealltwriaeth genedlaethol a lleol o ba mor effeithiol y mae'r system ADY yn cynorthwyo dysgwyr.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd yn fras â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY Cymru 2021, ac maent yn gyson â bwriadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (2022).

I ymestyn effaith y cynigion hyn, mae Estyn yn argymell y dylai'r strategaeth ddata ganolbwyntio'n eglur ar wella deilliannau dysgwyr, tegwch a chynhwysiant, yn hytrach na chydymffurfiaeth yn unig. Dylai'r gweithredu gael ei gefnogi gan drefn genedlaethol i sicrhau ansawdd, dysgu proffesiynol, a rhyngweithredu systemau.

Fodd bynnag, bydd llwyddiant y cynigion hyn yn dibynnu ar uniondeb data, cysondeb dehongli a'r trefniadau sicrhau ansawdd sy'n cyd-fynd â nhw.

Mae data dibynadwy, cymaradwy yn hanfodol, wedi'i ategu gan ddiffiniadau cenedlaethol clir, a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb ar draws awdurdodau lleol. Dylid defnyddio data i gefnogi dysgu, myfyrio a gwella yn hytrach na dim ond monitro cydymffurfiaeth neu berfformiad statudol. Dylai gwybodaeth ddangos pwy sy'n cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), sut caiff ei chyflwyno, i ba raddau, a gyda pha effaith, gan adlewyrchu strwythur Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).

Mae angen mesurau deilliannau sydd wedi'u dadgyfuno yn ôl math o ADY i ddeall cynnydd, cyfranogiad a lles, a gwerthuso pa mor effeithiol y mae darpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr. Dylai data ar b'un a yw DDdY yn angenrheidiol ac yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg lywio cynnydd tuag at *Cymraeg 2050* a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae angen gwahaniaethau clir rhwng dosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol a dosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr ysgol i sicrhau tryloywder,

cymharedd, a mynediad teg ar gyfer dysgwyr. Er y gall casglu data ar raddfeydd amser statudol ac eithriadau wella atebolrwydd, dylid rhoi hyn yn ei gyd-destun gyda ffactorau fel cymhlethdod achosion ac argaeledd adnoddau.

Dylai gwybodaeth am Gydlynwyr ADY ganolbwyntio ar ansawdd a dylanwad eu rôl yn hytrach na'u statws arweinyddiaeth ffurfiol, gyda sylw priodol i faich gwaith a gweithredu cymesurol.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Penderfyniadau am ADY

**Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ynglŷn â ph'un a yw ysgol neu awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad ffurfiol am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer dysgwr yn y 12 mis diwethaf?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno bod casglu data ar lefel unigol ar benderfyniadau am ADY yn cynnig y potensial i gryfhau goruchwyliaeth genedlaethol a lleol o gysondeb ac amseroldeb mewn gwneud penderfyniadau. Bydd hyn yn cynorthwyo monitro'r agweddau hyn ac yn galluogi gwerthuso maint a deilliannau penderfyniadau ledled Cymru. Fodd bynnag, bydd y budd hwn dim ond yn cael ei wireddu os yw canllawiau cadarn, diffiniadau clir a safoni cenedlaethol yn cyd-fynd ag ef, i sicrhau cymharedd ar draws awdurdodau lleol. Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried sefydlu proses ddilysu genedlaethol i sicrhau uniondeb a chymharedd data ar benderfyniadau am ADY.

### Cynlluniau cymorth

**Cwestiwn 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ar anghenion dysgwyr sy'n mynychu ysgolion yng Nghymru sydd â chynllun Addysg, Iechyd a Gofal (AIG), a'r ddarpariaeth ar eu cyfer?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cefnogi cynnwys data ar ddysgwyr â chynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (AIG) sy'n cael eu haddysgu yng Nghymru, gan y bydd hyn yn cryfhau dealltwriaeth genedlaethol o drefniadau ar draws ffiniau a'u goblygiadau o ran darparu adnoddau. Bydd protocolau rhannu data clir rhwng awdurdodau Cymru a Lloegr yn hanfodol i sicrhau cywirdeb a defnyddioldeb y wybodaeth hon.

**Meysydd angen**

**Cwestiwn 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol am y 4 maes angen (fel yr amlinellir yn y Cod ADY) ar gyfer dysgwyr ag ADY?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno y bydd casglu data ar y pedwar maes angen a diagnosisau cysylltiedig yn gwella dealltwriaeth genedlaethol o'r proffil ADY. Fodd bynnag, rhaid i'r ffaith nad oes diagnosis byth fod yn rhwystr rhag nodi neu ddiwallu anghenion dysgwr.

I osgoi cyfuno anghenion addysgol â diagnosisau meddygol neu glinigol, dylai canllawiau cysylltiedig a fframweithiau cofnodi wahaniaethu'n glir rhwng y cysyniadau hyn. Byddai hefyd yn fuddiol atgoffa ymarferwyr nad yw diagnosis o reidrwydd yn dangos bod gan unigolyn angen dysgu ychwanegol.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru egluro sut dylai ysgolion gofnodi achosion lle darperir cymorth heb ddiagnosis ffurfiol, gan sicrhau bod y dull hwn yn cyd-fynd ag arfer gynhwysol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Cwestiwn 4: A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar restr y diagnosisau meddygol, yr anhwylderau dysgu a'r anghenion dysgu sydd wedi'u casglu ar hyn o bryd yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Cyfrifiad Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) am ddysgwyr ag ADY?**

Sylwadau ategol:

Mae Estyn yn cytuno â'r cynnig i ddileu 'Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol' i osgoi dyblygu â'r maes angen 'ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol'.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau os bydd y maes angen ar gyfer Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (ICEM) yn cael ei ychwanegu at y categorïau. Mae nifer gynyddol o ddisgyblion a phobl ifanc, yn enwedig mewn darpariaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) y nodwyd bod ganddynt yr angen hwn.

**Darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY)**

**Cwestiwn 5: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ar b'un a yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY wedi cael ei sicrhau gan fwrdd iechyd lleol (fel y nodwyd yn eu cynllun datblygu unigol (CDU)?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cefnogi'n gryf wella data cenedlaethol ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), yn enwedig lle rhennir y cyflwyno rhwng awdurdodau lleol a chyrff y GIG.

Mae'r farn yn cadarnhau bod rhaid cofnodi'r holl DDdY sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgwr yn Adran 2B y Cynllun Datblygu Unigol (CDU), ni waeth pwy yw'r darparwr. Pan mae'r GIG yn cytuno i gyflwyno darpariaeth o dan adrannau 20–21 y Ddeddf ADY, rhaid cofnodi hyn yn Adran 2C, hefyd.

Dylai systemau data cenedlaethol adlewyrchu'r gofyniad cofnodi deuol hwn trwy gofnodi DDdY unwaith i ddisgrifio angen (2B) ac eto i ddangos cyfrifoldeb (2C), lle bo'n berthnasol. Bydd hyn yn adlewyrchu strwythur y CDU ac yn osgoi ansicrwydd am gyfrifoldeb neu gyllid.

Dylai systemau nodi'n glir p'un a yw'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno gan yr awdurdod lleol neu'r GIG ac yn cynnwys manylion allweddol fel math, amlder, dwysedd, a'r iaith gyflwyno. Dylent hefyd gofnodi pan fydd y GIG yn cytuno, yn gwrthod, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth.

Pan nad yw'r GIG yn cytuno i gyflwyno gwasanaeth, mae cyfrifoldeb yn aros gyda'r awdurdod lleol. Felly, rhaid i systemau data olrhain unrhyw newidiadau i sicrhau cywirdeb ac atebolrwydd.

Bydd data cenedlaethol gwell o'r math hwn yn cryfhau dealltwriaeth o ba mor dda y mae anghenion yn cael eu diwallu ledled Cymru ac yn cefnogi gwerthusiadau arolygu a thematig Estyn trwy alluogi dadansoddi amseroldeb, tegwch, a deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n cael cymorth amlasiantaethol.

**Cwestiwn 6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ar b'un a oes angen i ddysgwr ag ADY gael rhywfaint neu'i holl DDdY yn Gymraeg (fel sydd wedi'i ddogfennu yn ei CDU)?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cefnogi'n gryf gasglu data ar yr angen am DDdY cyfrwng Cymraeg, a'i chyflwyno. Mae'r data hwn yn hanfodol ar gyfer asesu cynnydd tuag at Cymraeg 2050 ac yn sicrhau mynediad ieithyddol teg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gwaith thematig diweddar Estyn yn dangos bod cyfle i fanteisio ar DDdY cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn anghyson. Mae angen casglu data yn systematig ar iaith y ddarpariaeth, gan gofnodi ble mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg a ble caiff ei chyflwyno, i fonitro ymrwymiadau Cymraeg 2050 a llywio cynllunio strategol.

Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried cyflwyno codio rhanbarthol hefyd i fapio argaeledd a chyflwyno DDdY cyfrwng Cymraeg a nodi ardaloedd lle mae angen meithrin capasiti.

**Cwestiwn 7: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ar b'un a yw dysgwr ag ADY yn derbyn DDdY yn Gymraeg (lle mae angen hyn fel sydd wedi'i ddogfennu yn ei CDU)?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Yn unol â'r ymateb i C6

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw wybodaeth arall am DDdY dysgwyr y dylai Llywodraeth Cymru ei chasglu i ddeall cymorth teg a deilliannau dysgwyr yn well?**

**Sylwadau ategol:**

I gryfhau dealltwriaeth o degwch a deilliannau dysgwyr, mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ehangu casgliad data cenedlaethol ar DDdY i gofnodi nid yn unig pwy sy'n darparu cymorth, ond hefyd sut caiff ei gyflwyno, i ba raddau, a beth yw'r effaith. Byddai hyn yn cyd-fynd yn fwy uniongyrchol â'r set data genedlaethol gyda Nod 5 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg, sy'n anelu at "ddisgwyliadau uchel a deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ag ADY."

Gan ddefnyddio'r Cod ADY (2021) a gwaith thematig Estyn (2023–24), dylai datblygiadau yn y dyfodol gasglu ystod ehangach o wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys data ar fath, amlder, a dwysedd DDdY; p'un a yw'r cyflwyno'n cyd-fynd â'r hyn a amlinellir mewn cynlluniau datblygu unigol; a pha sefydliadau, awdurdodau lleol neu gyrff y GIG sy'n gyfrifol o dan Adrannau 20 a 21 y Ddeddf.

Dylai'r set ddata hefyd gofnodi iaith y cyflwyno i nodi ble mae angen DDdY cyfrwng Cymraeg, a ble caiff ei chynnig, gan gefnogi Cymraeg 2050 a sicrhau tegwch ieithyddol. Byddai gwybodaeth am amseroldeb a pharhad, pryd mae cymorth yn dechrau a sut caiff ei gynnal trwy gyfnodau pontio, yn rhoi darlun cliriach o sefydlogrwydd ac ymatebolrwydd y ddarpariaeth. Byddai casglu data ar gynnydd a deilliannau dysgwyr, wedi'i ddadgyfuno yn ôl math o ADY, yn galluogi gwerthusiad cenedlaethol o ba mor effeithiol y mae gwahanol fathau o gymorth yn hyrwyddo lle, cyfranogiad a chyrhaeddiad.

Dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro sut caiff darpariaeth gyffredinol a thargedig ei chofnodi i roi darlun llawn o'r ymateb graddedig. Byddai set ddata gryfach sy'n gyson yn gyfreithiol o'r math hwn yn gwella gwerthuso cenedlaethol, yn cefnogi atebolrwydd, ac yn gyrru gwelliant parhaus mewn tegwch, cynhwysiant a deilliannau dysgwyr ledled Cymru.

## Dysgwyr ag ADY mewn dosbarthiadau arbennig

**Cwestiwn 9: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ynglŷn â ph'un a yw dysgwr ag ADY mewn lleoliad prif ffrwd yn cael ei addysgu mewn dosbarth arbennig?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae nod clir yn y cynnig i wella data cenedlaethol ar ddysgwyr ag ADY sy'n cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau arbennig o fewn ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, nid yw'n gwahaniaethu rhwng dosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol ac wedi'u dynodi gan yr ysgol, sy'n creu risg o ddehongli anghyson gan ddarparwyr data a thanseilio dibynadwyedd y set ddata. Byddai Estyn yn croesawu set gryfach o ddata cenedlaethol am nifer y disgyblion unigol sy'n cael eu haddysg mewn dosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol a rhai wedi'u dynodi gan yr ysgol. Byddai hyn yn helpu cryfhau cynllunio strategol ar lefel leol a rhanbarthol, yn ogystal â chynorthwyo Estyn i sicrhau bod gennym yr adnodd cywir i arolygu unrhyw ddarpariaeth arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae tystiolaeth arolygu Estyn yn dangos amrywiad sylweddol o ran sut caiff termau fel *anghenion cymhleth* eu diffinio a'u cymhwyso. Mewn rhai achosion, mae disgyblion ag ADY amrywiol wedi cael eu rhoi mewn darpariaethau sydd wedi'u labelu ar gyfer anghenion cymhleth heb iddynt gyd-fynd yn glir â'r categorïau CYBLD cenedlaethol. Mae'r anghysondeb hwn yn gwyrdroi'r darlun cenedlaethol o angen, yn cymhlethu cynllunio strategol, ac yn cuddio p'un a yw dysgwyr yn cael cymorth priodol.

I fynd i'r afael â hyn, mae angen mwy o arweiniad i sicrhau bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn cymhwyso diffiniadau CYBLD yn gyson wrth gofnodi mathau o ADY a chategoreiddio darpariaeth. Mae diffiniadau cenedlaethol clir, wedi'u cefnogi gan enghreifftiau ymarferol, yn hanfodol i sicrhau dehongli cyson.

Bydd mwy o eglurder a chysondeb yn gwella dibynadwyedd data, yn cefnogi tryloywder, ac yn hyrwyddo dyrannu adnoddau'n deg. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod dysgwyr yn cael eu lleoli'n briodol a bod darpariaeth ledled Cymru yn adlewyrchu ymagwedd gydlynus a theg at ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol.

**Cwestiwn 10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ynglŷn â faint o amser y mae dysgwr ag ADY yn ei dreulio mewn dosbarth arbennig?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Nod y cynnig yw gwella dealltwriaeth o sut caiff DDdY ei threfnu ar draws lleoliadau. Gallai casglu data ar yr amser y mae dysgwyr ag ADY yn ei dreulio mewn dosbarthiadau arbennig helpu mapio patrymau'r ddarpariaeth, ond fel y mae wedi'i fframio ar hyn o bryd, mae'r cynnig yn weinyddol i raddau helaeth, yn pwysleisio ble

caiff dysgwyr eu haddysgu yn hytrach nag ansawdd neu effaith y cymorth a ddarperir.

Byddai dull mwy ystyrlon yn cynnwys mapio’r ddarpariaeth ar draws tri dimensiwn, sef: angen (natur a chymhlethdod ADY dysgwr), mewnbwn (math, amlder a dwysedd y cymorth), a deilliant (cynnydd mewn lles, cyfranogiad a chyrhaeddiad). Gyda’i gilydd, byddai’r mesurau hyn yn cynnig darlun llawnach o effeithiolrwydd a thegwch DDdY na data yn seiliedig ar amser yn unig.

Mae Estyn yn ystyried y dylai barn broffesiynol ysgolion, wedi’i chefnogi gan gydweithwyr yr awdurdod lleol a chydweithwyr iechyd, lle bo’n briodol, aros yn ganolog wrth bennu’r ddarpariaeth. Dylai casglu data ymestyn y barnau hyn, nid eu disodli, trwy gynnig mewnwelediad cenedlaethol i batrymau cymorth, anghenion sy’n dod i’r amlwg a deilliannau dysgwyr.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynnig yn cyfrannu’n ystyrlon at ddeall ansawdd ac effaith DDdY, yn hytrach na gweithredu’n unig fel ymarfer gweinyddol yn canolbwyntio ar leoliad.

**Gwybodaeth am ddosbarthiadau arbennig**

**Cwestiwn 11: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig i gasglu data ar nifer y dosbarthiadau arbennig wedi’u dynodi gan yr ysgol mewn lleoliad prif ffrwd (i ychwanegu at y data a gasglwyd eisoes ar ddosbarthiadau arbennig wedi’u dynodi gan yr awdurdod lleol)?**

**Cytuno’n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno’n gryf â chasglu data ar ddosbarthiadau arbennig wedi’u dynodi gan yr awdurdod lleol a rhai wedi’u dynodi gan yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei gefnogi gan fframwaith dosbarthu sy’n gyson yn genedlaethol. Mae angen i ysgolion ac awdurdodau lleol gael diffiniadau clir a chyson o ADY dysgwyr a’r DDdY y maent yn ei chael. Bydd ymagwedd genedlaethol gadarn at nodi angen a dosbarthu darpariaeth yn sicrhau bod data yn ystyrlon, yn gymaradwy, ac yn ddefnyddiol wrth werthuso pa mor dda mae’r ddarpariaeth yn diwallu anghenion unigol. Mae’r lefel hon o fanylder hefyd yn hanfodol i sicrhau tegwch ar gyfer disgyblion, p’un a ydynt yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau arbenigol neu ysgolion arbennig. Hebddo, gallai amrywiadau yn y ddarpariaeth a’r deilliannau gael eu cuddio.

Byddai’r cynnig yn gryfach o gael mwy o eglurder ynglŷn â pham mae angen y data ychwanegol hwn a sut bydd yn cael ei ddefnyddio i yrru gwelliant. Mae ysgolion eisoes yn arfer barn broffesiynol wrth drefnu DDdY, a rhaid i unrhyw gasgliad data newydd osgoi tanseilio hyn neu greu baich gweinyddol diangen.

Mae Estyn hefyd yn pwysleisio y dylai disgyblion ag ADY gael eu cynnwys yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol ble bynnag y bo modd, gyda chyfleoedd ystyrlon i ddysgu, cymdeithasu ac ymgymryd â chyfrifoldebau ochr yn ochr â'u cyfoedion. Felly, dylai data ar ddosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr ysgol gael ei ystyried fel un elfen yn unig o ddealltwriaeth ehangach o arfer gynhwysol a phrofiad dysgwyr.

**Cwestiwn 12: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar nifer y dysgwyr mewn dosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr ysgol (i ychwanegu at y data a gasglwyd eisoes ar nifer y dysgwyr mewn dosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol)?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cefnogi'n gryf gasglu data ar nifer y dysgwyr unigol mewn dosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr ysgol a rhai wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol. Byddai dull cenedlaethol cyson yn gwella dealltwriaeth o ddarpariaeth arbenigol ledled Cymru ac yn sicrhau bod data yn adlewyrchu arfer bresennol.

Mae tystiolaeth arolygu'n dangos amrywiad sylweddol o ran sut caiff termau fel *anghenion cymhleth* eu dehongli a sut caiff categorïau ADY eu cymhwyso. Mae defnydd anghyson o derminoleg, yn cynnwys gwahaniaethau o ddosbarthiadau CYBLD, yn tanseilio uniondeb data cenedlaethol ac yn ei gwneud yn anos asesu digonolrwydd, cynllunio darpariaeth neu ddadansoddi tueddiadau yn ddibynadwy.

Felly, mae'r casgliad data arfaethedig yn gyfle gwerthfawr i wella tryloywder ac atebolrwydd. Bydd ei effeithiolrwydd yn dibynnu ar ddiffiniadau cenedlaethol clir, categoreiddio cyson o ran ADY, a threfniadau sicrhau ansawdd cadarn fel bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn cofnodi gwybodaeth yn yr un ffordd.

Dylai data ar ddosbarthiadau arbennig hefyd ddangos y math o ADY y darperir ar ei gyfer, a natur y DDdY ar gyfer disgyblion unigol. Byddai hyn yn cefnogi dadansoddiad mwy ystyrlon o b'un a yw dysgwyr yn cael eu lleoli'n briodol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn deg ledled Cymru.

Mae cysondeb gwell hefyd yn bwysig ar gyfer rhieni a gofalwyr. Mae angen iddynt gael gwybodaeth glir am y diben, y meini prawf a'r cymorth a gynigir mewn gwahanol ddosbarthiadau arbenigol. Gall dryswch yn y meysydd hyn danseilio hyder mewn penderfyniadau am leoliadau.

Felly, mae Estyn yn argymell y dylid cryfhau diffiniadau cenedlaethol a’r safonau data a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â CYBLD. Bydd data dibynadwy a chynhwysfawr ar ddarpariaeth dosbarth arbenigol yn cefnogi cynllunio cenedlaethol, yn gwella tryloywder ac yn llywio gwaith arolygu a gwerthuso Estyn.

**Amseroldeb penderfyniadau am ADY ac adolygiadau CDU**

**Cwestiwn 13: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar gyfran y penderfyniadau am ADY sy’n cael eu gwneud gan ysgolion ac awdurdodau lleol o fewn y graddfeydd amser statudol yn y 12 mis diwethaf (lle nad yw eithriadau’n berthnasol)?**

**Cytuno’n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cefnogi’n gryf gasglu data amseroldeb cyfanredol, ar yr amod bod gwybodaeth gyd-destunol berthnasol yn cyd-fynd ag ef.

Er bod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (2018) a’r Cod ADY (2021) yn gofyn i ysgolion ac awdurdodau lleol gofnodi gwybodaeth ar lefel unigol i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio â dyletswyddau statudol, nid ydynt yn gofyn am gyflwyno data amseroldeb cyfanredol. Felly, byddai adrodd cenedlaethol yn cynrychioli menter polisi yn hytrach na rhwymedigaeth gyfreithiol newydd.

Byddai Estyn yn croesawu mwy o eglurhad ar ddiben y cynnig hwn a sut bydd y data yn llywio gwelliant. Mae nodi angen a sicrhau darpariaeth briodol yn amserol o fewn amserlenni statudol yn hanfodol i sicrhau bod penderfyniadau’n cael eu gwneud er lles pennaf dysgwyr. Gallai data cyfanredol gynnig mewnwelediad gwerthfawr i ba mor dda y caiff y disgwyliadau hyn eu bodloni.

Mae Estyn yn awgrymu y gallai data amseroldeb weithredu fel dangosydd perfformiad defnyddiol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol. Byddai adrodd yn rheolaidd i gyrff llywodraethol ac aelodau etholedig yn cryfhau atebolrwydd ac yn helpu nodi meysydd i’w gwella neu arfer effeithiol. Yn ei hanfod, dylid fframio casglu’r data hwn fel offeryn i gefnogi gwelliant yn hytrach nag ar gyfer craffu cenedlaethol yn unig.

Mae Estyn hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau clir i sicrhau cofnodi a dehongli cyson ar draws lleoliadau a sefydlu prosesau dilysu cadarn ar lefel leol a chenedlaethol.

**Cwestiwn 14: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar nifer yr eithriadau i'r graddfeydd amser statudol yn y 12 mis diwethaf?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno'n gryf y byddai casglu data cyfanredol ar amseroldeb penderfyniadau am ADY ac adolygiadau ADY yn cryfhau monitro cydymffurfiaeth statudol ac yn amlygu amrywiad ar draws awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ni all data meintiol ar ei ben ei hun roi darlun llawn. Dylai gael ei gefnogi gan wybodaeth ansoddol sy'n esbonio oedi, yn cynnwys cymhlethdod achosion, cyfle i gael asesiadau arbenigol, a chapasiti gwasanaethau lleol.

Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno meysydd safonedig ar gyfer cofnodi'r ffactorau cyd-destunol hyn. Byddai hyn yn galluogi dadansoddi mwy ystyrlon, yn hyrwyddo cysondeb ar draws awdurdodau lleol, ac yn cefnogi diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn hytrach na chanolbwyntio ar gydymffurfio yn unig.

**Cwestiwn 15: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel gyfanredol ar gyfran y CDUau a adolygwyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn y cyfnod statudol 12 mis diweddaraf?**

**Cytuno'n gryf**

**Sylwadau ategol:**

Gweler yr ymateb i C13

Gallai hefyd fod yn fuddiol casglu data ar gyfran y CDUau a gafodd eu diystyru / nad oes eu hangen mwyach ar ôl adolygiad. Er i lawer o ddysgwyr gellir disgwyl ei bod yn debygol y bydd angen CDU arnynt o hyd, ar ôl nodi eu ADY a'r DDdY angenrheidiol, dylai fod yn ddisgwyliedig fod angen newid dros gyfnod, weithiau, a chaiff CDUau eu parhau, beth bynnag.

## Cydlynwyr ADY

**Cwestiwn 16: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gasglu data ar lefel unigol ynglŷn â ph'un a yw Cydlynydd ADY (Cydlynydd ADY) mewn lleoliad yn aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth ai peidio?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cytuno y gallai casglu gwybodaeth ynglŷn â ph'un a yw Cydlynwyr ADY yn rhan o uwch dimau arweinyddiaeth gynnig mewnwelediad defnyddiol i gapasiti strategol lleoliadau i gynllunio a goruchwylio DDdY. Gallai'r data hwn helpu llywio cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol a gwerthuso strwythurau arwain ar draws awdurdodau lleol. Fodd bynnag, dylid ei ddefnyddio i gefnogi gwelliant a meithrin capasiti, nid i farnu perfformiad unigolyn neu sefydliad.

Yr hyn sydd bwysicaf yw ansawdd a dylanwad gwaith y Cydlynydd ADY, nid ei safle ffurfiol o fewn yr hierarchaeth arweinyddiaeth. Mae Cydlynwyr ADY effeithiol yn cyfrannu'n strategol at gynhwysiant a chynnydd dysgwyr, ni waeth beth yw eu safle yn yr uwch dîm arweinyddiaeth.

Mae Estyn hefyd yn amlygu canlyniadau anfwriadol posibl. Gallai ysgolion deimlo dan bwysau i roi Cydlynwyr ADY mewn uwch dimau arweinyddiaeth am resymau cydymffurfio, ac mewn rhai achosion, gallai'r Cydlynydd ADY fod yn athro cymwys nad yw'n cael ei gyflogi'n athro yn yr ysgol. Rhaid ystyried amrywiadau o'r fath i sicrhau bod y data'n cael ei ddehongli'n gymesur ac yn gywir.

Mae angen eglurhad hefyd ynglŷn â sut mae'r cynnig yn berthnasol i ysgolion arbennig a gynhelir, nad yw'n ofynnol iddynt benodi Cydlynydd ADY. Dylid ystyried sut bydd cyfrifoldebau arwain ADY yn y lleoliadau hyn yn cael eu cofnodi i sicrhau darlun cenedlaethol cydlynus.

## Goblygiadau i'r gweithlu

**Cwestiwn 17: Pa effaith fydd y newidiadau arfaethedig i ddata ADY yn ei chael ar y gweithlu, yn cynnwys unrhyw effaith ar faich gwaith?**

**Sylw ategol:**

Mae Estyn yn cydnabod y gallai'r newidiadau arfaethedig i ddata ADY gryfhau dealltwriaeth genedlaethol o ddarpariaeth, gwella cysondeb a chefnogi cynllunio

strategol. Fodd bynnag, bydd y manteision hyn ond yn cael eu gwireddu os ydynt yn gymesur ac yn sensitif i bwysau presennol ar y gweithlu.

Gallai gofynion data ychwanegol gynyddu baich gwaith staff ysgol, yn enwedig Cydlynwyr ADY, y mae eu rolau eisoes yn cwmpasu cydlynu, cydymffurfio a chyfathrebu. Gallai casglu a dilysu data newydd, fel amseroldeb, dynodi dosbarth neu rolau arwain, ailgyfeirio capasiti oddi wrth gymorth uniongyrchol os nad yw wedi'i integreiddio'n dda mewn systemau sy'n bodoli eisoes.

I liniaru hyn, rhaid i brosesau data fod yn systemau digidol symlach sy'n hawdd eu defnyddio, a rhaid cyfleu disgwyliadau'n glir. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir ar ddiffiniadau a dilysu i leihau dyblygu a lleihau baich gweinyddol.

Mae Estyn yn pwysleisio y daw'r gwerth mwyaf pan fydd casglu data yn cefnogi myfyrio, hunanwerthuso a gwelliant proffesiynol yn hytrach na chydymffurfio yn unig. Dylai data lywio cynllunio awdurdod lleol, dysgu proffesiynol ac adolygu polisi cenedlaethol, gan sicrhau bod unrhyw faich gwaith ychwanegol yn arwain at fewnwelediad ystyrlon a deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ag ADY.

**Cyffredinol**

**Cwestiwn 18: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y data y dylid ei gofnodi neu y dylem ei gasglu i fonitro a deall effeithiolrwydd y system ADY wrth gefnogi dysgwyr ag ADY?**

**Sylw ategol:**

Mae Estyn yn nodi bod y diffyg data ar ddeilliannau sydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl math o ADY yn fwlch sylweddol. Heb y manylder hwn, mae setiau data fel Set Ddata Graidd Cymru Gyfan yn cyfyngu ar allu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddadansoddi cyrhaeddiad a chynnydd ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft dysgwyr ag awtistiaeth neu namau synhwyraidd. Mae hyn yn gwanhau hunanwerthuso, cynllunio strategol a gallu'r sector i nodi pa fathau o ddarpariaeth sydd fwyaf effeithiol.

Mae Nod 5 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn anelu at ddisgwyliadau uchel a deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr ag ADY. Nid yw'r cynnig presennol yn esbonio sut bydd yr uchelgais hon yn cael ei mesur. Heb ddangosyddion deilliannau clir yn gysylltiedig â chynnydd a chyflawniad dysgwyr, bydd yn anodd asesu p'un a yw'r diwygiadau'n cyflawni'r nod canolog hwn.

Mae Estyn yn argymell y dylid cyflwyno mesurau deilliannau wedi'u dadgyfuno yn ôl math o ADY mewn datblygiadau data yn y dyfodol. Byddai hyn yn cefnogi dadansoddiad manylach o gynnydd dysgwyr a dealltwriaeth gliriach o ba mor dda y mae gwahanol fathau o DDdY yn diwallu anghenion unigol.

Mae Estyn hefyd yn amlygu'r angen am brotocolau sicrhau ansawdd cenedlaethol clir i sicrhau cysondeb a dibynadwyedd, ac ar gyfer cyfuno tystiolaeth feintiol ac ansoddol i roi darlun llawnach o brofiadau a deilliannau dysgwyr. Gyda'i gilydd,

byddai'r gwelliannau hyn yn cryfhau gallu'r sector i werthuso effaith, nodi arfer effeithiol a gyrru gwelliant parhaus ar draws y system ADY.

**Gorfodol**

**Cwestiwn 19: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y data newydd arfaethedig am y system ADY ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn cefnogi'r cynnig i gasglu data ar b'un a oes angen DDdY ac a yw'n cael ei chynnig yn Gymraeg. Bydd y wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer monitro cynnydd tuag at Cymraeg 2050 ac asesu argaeledd ac ansawdd darpariaeth ADY ddwyieithog ledled Cymru.

I uchafu ei gwerth, dylai'r set ddata alluogi dadansoddi amrywiad rhanbarthol mewn DDdY cyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn helpu nodi bylchau ac yn llywio cynllunio strategol gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae Estyn hefyd yn argymell y dylid defnyddio'r canfyddiadau i rannu arfer effeithiol ar draws rhanbarthau a lleoliadau, gan hyrwyddo mynediad teg at DDdY cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob un o'r dysgwyr sydd angen y ddarpariaeth hon.

**Cwestiwn 20: Yn eich barn chi, a allai'r data newydd arfaethedig am y system ADY gael ei ffurfio neu'i newid er mwyn gwneud y canlynol:**

**· cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**· liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

**Sylwadau ategol:**

Mae Estyn yn credu, os caiff ei gynllunio'n dda, y gallai'r casgliad data ADY arfaethedig gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Byddai cynnwys meysydd penodol ar ddewis iaith dysgwyr a rhieni, yr iaith asesu, iaith y DDdY a gyflwynir, ac unrhyw gamgyfatebiaeth rhwng y rhain yn darparu profiad gwerthfawr ar gyfer cynllunio a gwelliant.

Byddai dadgyfuno data amseroldeb yn ôl iaith yn helpu nodi oedi wrth sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, tra byddai gwybodaeth am argaeledd arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg—fel Cydlynwyr ADY, seicolegwyr addysg a therapyddion—yn amlygu anghenion capasiti'r gweithlu. Byddai cysoni'r data hwn gyda Cymraeg 2050 a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cryfhau cynllunio cenedlaethol a lleol ymhellach.

Dylai'r holl systemau data, y canllawiau a'r rheolau dilysu fod yn gwbl ddwyieithog ac osgoi codio 'Saesneg fel mater o drefn', gyda sbardunau clir i gofnodi dewisiadau iaith a manylion am y ddarpariaeth. Dylai data meintiol gael ei gefnogi gan gyd-destun ansoddol, yn enwedig lle mae cymhlethdod neu argaeledd arbenigol yn effeithio ar amseroldeb.

Byddai ymgorffori'r elfennau iaith hyn o fewn systemau presennol yn lleihau'r baich gweinyddol tra'n darparu tystiolaeth gyfoethocach i gefnogi gwelliant. O'u cymryd gyda'i gilydd, byddai'r mesurau hyn yn helpu hyrwyddo DDdY cyfrwng Cymraeg, yn sicrhau tegwch ieithyddol, ac yn defnyddio data fel offeryn ar gyfer dysgu trwy system yn hytrach na chydymffurfiaeth yn unig.

**Cwestiwn 21: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt:**

Mae Estyn yn cefnogi cyfeiriad cyffredinol yr ymgynghoriad ac yn croesawu'r nod i gryfhau sail y dystiolaeth i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY. Byddai'n fuddiol darparu negeseuon clir am sut dylai llywodraeth leol a chenedlaethol wneud defnydd priodol o'r data i gefnogi gwelliant.

Fodd bynnag, rhaid mynd i'r afael ag ychydig o ystyriaethau i sicrhau bod y data a gesglir yn drylwyr, yn ystyrlon ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys:

- datblygu prosesau sicrhau ansawdd cenedlaethol cryf. Mae diffiniadau, cofnodi a dilysu cyson ar draws awdurdodau lleol a lleoliadau yn hanfodol ar gyfer creu data cenedlaethol cywir a chymaradwy;
- sicrhau nad yw gwybodaeth ddiagnostig yn dod yn borthor i gymorth. Er ei bod yn bwysig nodi'n gywir, ni ddylai casglu data gyfyngu mynediad ar gyfer dysgwyr nad yw eu hanghenion yn cyd-fynd yn ddestlus â chategorïau diagnostig ffurfiol;

- darparu mwy o eglurder ar sut bydd darpariaeth gyffredinol, dargedig ac arbenigol yn cael ei chofnodi, gan sicrhau bod data yn adlewyrchu'r continwwm cymorth llawn;
- gwahaniaethau clir ac eglur rhwng dosbarthiadau arbennig wedi'u dynodi gan yr awdurdod lleol a rhai wedi'u dynodi gan yr ysgol i hyrwyddo tryloywder a thegwch;
- adfer neu ddatblygu ymhellach y data deilliannau sydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl math o ADY. Byddai hyn yn cefnogi dadansoddiad manylach o gynnydd dysgwyr ac effeithiolrwydd gwahanol fathau o DDdY.

Mae Estyn wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i sicrhau bod datblygu casglu data ADY yn parhau i hyrwyddo dysgu, tryloywder a gwelliant ar draws systemau.

Er nad yw'r ymgynghoriad hwn yn ystyried lleoliadau ôl-16 neu leoliadau meithrin nas cynhelir, bydd yn bwysig ystyried sut dylid rhoi ystyriaeth i'r lleoliadau hyn wrth gasglu data. Er enghraifft, o ran data am adolygiadau o CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol, gallai fod angen i hyn ystyried unrhyw amrywiadau yn gysylltiedig â gwahanol fathau o leoliadau.

**Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:**